

ADRODDIAD CYFNOD GWRTHWYNEBU CYNNIG I GYNYDDU CAPASITI YSGOL Y FAENOL I 315 O DDISGYBLION

Swyddog Cyswllt: Diane Jones – Arweinydd Prosiect Bangor

PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn dilyn cyfnod rhybudd statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315.

Ar 20 Tachwedd 2018, adroddwyd i Gorff Llywodraethol Ysgol y Faenol a chyflwynwyd y prif sylwadau a dderbyniwyd gan fudd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol, a thrafodwyd ymateb y Corff Llywodraethol i'r sylwadau hynny. Yn eu cyfarfod, penderfynodd Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol fel a ganlyn:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 o ddisgyblion.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a phenderfyniad Corff Llywodraethol Ysgol y Faenol 20 Tachwedd 2018, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 23 Tachwedd 2018, ac fe gynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig rhwng 23 Tachwedd 2018 a 21 Rhagfyr 2018.

Cyhoeddwyd Rhybuddion Statudol ar 23 Tachwedd 2018 i **EHANGU** safle gan gynyddu capasiti Ysgol y Faenol, Bangor, LL57 2NN, o 186 i 315. Gosodwyd copi o'r rhybudd ar giât a prif fynedfa Ysgol y Faenol yn ogystal a gwefan yr Ysgol www.ysgolyfaenol.cymru a gwefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nodwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 21 Rhagfyr 2018. **Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.**

CAMAU NESAF

Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad, argymhellir bod y Corff Llywodraethol yn cadarnhau'n derfynol y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 o ddisgyblion yn weithredol o 1 Ionawr 2021.